PWYLLGOR PENODIADAU - CYFARWYDDWR GWASANAETHAU PLANT

DYDD MAWRTH, 26 IONAWR 2021

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Hinchey, Naughton, Bridgeman a/ac Mia Rees |

16 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB (OS OES RHAI)

Dim ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod hwn.

17 : DATGAN BUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

18 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y Pwyllgor Penodiadau – rhestr fer ar 14 Ionawr 2021.

19 : GWAHARDD Y CYHOEDD

Gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ar yr eitem busnes ganlynol ar y sail, pe byddai aelodau'r cyhoedd yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod, datgelid iddynt wybodaeth a eithrir fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod:-

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n berthnasol i ymgeisydd yn dod yn gyflogai'r Awdurdod; a

Pharagraff 13 - Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy yw unigolyn.

20 : PENODI CYFARWYDDWR GWASANAETHAU PLANT

Cafodd y Pwyllgor ei ymgynnull i gyfweld â'r ymgeisydd ar y rhestr fer a gyflwynwyd gan y Pwyllgor ar 14 Ionawr 2021 ar ôl ystyried canlyniadau'r Ganolfan Asesu.

Fel rhan o'r broses gyfweld, gwnaeth yr ymgeisydd gyflwyniad 10 munud a rhoddwyd cyfle i'r Aelodau holi a chwestiynu cynnwys y cyflwyniad. Dilynwyd hyn gan gyfres ffurfiol o gwestiynau a dau gwestiwn gorfodol.

Ar ddiwedd y broses gyfweld, trafododd y Pwyllgor berfformiad yr ymgeisydd yn erbyn y cymwyseddau a'r ymatebion enghreifftiol.

Cytunodd y Pwyllgor eu bod yn gallu penodi i swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Plant.

PENDERFYNWYD -

1. Penodi Ms Deborah Driffield yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant ar y cyflog sy'n gysylltiedig â'r swydd a'r dyddiad cychwyn i'w gytuno gyda'r ymgeisydd yn unol â'r cyfnod ymddiswyddo a chwblhau'r broses benodi gan y Cyngor; a

Bod y broses ddethol wedi’i chynnal yn unol â'r broses benodi ac roedd pob ymgeisydd wedi cael ei drin yn gyfartal ac yn deg. Penodwyd yr ymgeisydd llwyddiannus ar sail teilyngdod.